



















## Gwybodaeth ategol

	<p>Capita ydym ni. Rydym yn cynnal asesiadau Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).</p>
	<p>Mae anfon gwybodaeth gyda'ch ffurflen gais yn gallu helpu ein gweithiwr iechyd proffesiynol i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch.</p>
	<p>Ceisiwch anfon cymaint o wybodaeth ag y gallwch ar gychwyn eich cais. Bydd angen i hwn gael ei bostio atom.</p>
	<p>Anfonwch unrhyw wybodaeth sy'n esbonio sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch.</p>
	<p>Nid oes angen i'r wybodaeth fod yn feddygol.</p>

	<p>Mae gwybodaeth gan y bobl sy'n eich hadnabod orau yn bwysig iawn.</p>
	<p>Gallwch anfon gwybodaeth gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelodau o'r teulu</li> <li>• Ffrindiau</li> <li>• Gofalwyr</li> <li>• Gweithwyr cymorth</li> </ul>
	<p>Anfonwch wybodaeth sydd gennych eisoes yn unig.</p>
	<p>Peidiwch â gofyn wrth eich Meddyg Teulu (GP) am wybodaeth os oes angen i chi dalu amdano.</p>
	<p>Peidiwch a disgwyl am fwy o wybodaeth cyn anfon eich ffurflen gais yn ôl.</p>
	<p>Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer pawb sy'n eich helpu ar eich ffurflen gais.</p> <p>Rhowch y rhain mewn trefn o bwy sy'n eich hadnabod orau. Nid oes angen iddynt fod yn eich GP, gall fod yn unrhyw un.</p>
	<p>Os oes angen mwy o wybodaeth arnom, efallai y byddwn yn cysylltu â'r pobl sydd ar eich ffurflen.</p>



	<p><b>Gwybodaeth sydd yn ddefnyddiol i ni yw:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Rhestr o'r meddyginiaethau yr ydych yn eu cymryd</li></ul>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Adroddiad neu gynllun gofal gan:<ul style="list-style-type: none"><li>○ GP neu ymgynghorydd</li><li>○ Nyrs seiciatryddol cymunedol (CPN)</li><li>○ Therapydd galwedigaethol</li><li>○ Gweithiwr cymdeithasol</li><li>○ Tîm cefnogaeth Anableddau Dysgu</li></ul></li></ul>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Datganiadau gan ofalwyr neu aelodau'r teulu, megis dyddiadur gofalwr</li></ul>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Llythyr am eich cyflwr neu ddiagnosis gan<ul style="list-style-type: none"><li>○ eich ymgynghorydd(wyr)</li><li>○ yr ysbyty sy'n eich rhyddhau</li><li>○ clinig cleifion allanol</li></ul></li></ul>

**Dyma ychydig o esiamplau o'r wybodaeth na ddylech eu hanfon.**

 	<p><b>Nid oes angen i chi anfon</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cardiau neu lythyrau apwyntiadau</li> </ul>
 	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llythyrau derbyn i'r ysbyty</li> </ul>
 	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Taflenni ffeithiol am eich cyflwr, diagnosis neu'r llythyrau rydych chi'n eu cymryd</li> </ul>
 	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth am brofion rydych chi am eu cael</li> </ul>
 	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ticedi trênn neu fwc a mapiau cyfeiriad i apwyntiadau rydych chi wedi'u mynychu</li> </ul>
  <p>Department for Work &amp; Pensions</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth rydych chi eisoes wedi'i hanfon at y DWP am PIP</li> </ul>
 	<p><b>Cofiwch, peidiwch â thalu am unrhyw wybodaeth meddygol.</b></p>

**Sut i gysylltu â ni**

	<p>Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich asesiad, cysylltwch â ni.</p>
	<p>Rydym ar agor o 8am i 8pm, dydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 5pm dydd Sadwrn.</p>
	<p>Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan. Bydd rhaid iddynt wybod eich Rhif Yswiriant Gwladol.</p>
	<p>Ffoniwch ni am ddim ar <b>0808 178 8114</b></p>
	<p>Os na allwch chi glywed neu siarad ar y ffôn, gallwch ddefnyddio NGT neu Relay UK: <b>18001</b> yna <b>0808 178 8114</b>.</p>
	<p>Os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gallwch ddefnyddio'r <b>Gwasanaeth Cyfnewid Fideo</b>.</p> <p>Teipiwch y ddolen hon i'ch porwr rhyngwyd:  <a href="http://www.haas.capita.co.uk/cy/contact-us">www.haas.capita.co.uk/cy/contact-us</a></p> <p>Sgroliwch i lawr i '<b>Gwasanaeth Cyfnewid Fideo</b>' a chliciwch ar y ddolen.</p>

	<p>Gallwch ysgrifennu atom hefyd:</p> <p><b>Capita</b> <b>PO Box 393</b> <b>Darlington</b> <b>DL1 9UL</b></p>
	<p>Neu e-bostiwch ni: <a href="mailto:contactus@capita-pip.co.uk">contactus@capita-pip.co.uk</a></p>

Am fwy o wybodaeth am PIP, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read Personal Independence Payment.**